

Darlith Goffa Hedley Gibbard

Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011

Tafodiaith Rhosllannerchrugog, gan Gareth Davies Jones.

Cefndir y Pentref

Pentref diwydiannol Cymraeg oedd y Rhos yn ei anterth; cynnyrch y chwyldro diwydiannol. Y diwydiant glo ddenodd pobl i'r ardal ac adeiladwyd tai blith drafflith ar draws ei gilydd. Fe ddywedir mai'r unig le trefnus oedd y fynwent!

Agorwyd llawer o byllau glo bach oedd yn perthyn i deuluoedd ac unigolion yn y pentref. Yn wir, mae'r PONCIAU, sef pentref cyfochrog â'r Rhos wedi ei enwi ar ôl y tipie neu'r tomenni sbwriel oedd wedi datblygu gyda'r pyllau hyn. Y gair lleol am 'tip' yw 'ponc', a lluosog 'ponc' yw 'ponciau', a dyna roi enw i'r pentref.

Pentref ar Glawdd Offa, mwy neu lai, yw'r Rhos ac mae'n syndod bod y Gymraeg wedi goroesi yno cyhyd. Mae'r pentref yn ynys o Gymreictod ar y ffin, yng nghanol môr o Seisnigrwydd. Yn anffodus, mae'r Cymreictod hwn wedi ei erydu i raddau helaeth dros y blynyddoedd ac mae llawer o'r geiriau a'r ymadroddion a arferid flynyddoedd yn ôl, bellach wedi diflannu. Yn wir, mae modd canfod y dirywiad o genhedlaeth i genhedlaeth.

Oherwydd presenoldeb glo yn yr ardal, daeth pobl o bob cwr o ogledd Cymru i fyw yno, gan ddod â'u tafodieithoedd gyda nhw. Hyn, mae'n debyg, a esgorodd ar dafodiaith unigryw y Rhos.

Dyma ymgais yn awr i nodi prif nodweddion y dafodiaith, ynghyd â rhai o'i geiriau a'i hymadroddion, rhai yn debyg i dafodieithoedd eraill mae'n siwr, ond ambell un yn unigryw. Gwneir hynny drwy ddefnyddio'r wyddor seingol er mwyn nodi union sain a hyd y llafariaid a'r cytseiniaid (gweler yr atodiad am arweiniad pellach).

Cywasgu ffurfiau/cystrawennau

Wrth gwrs, mae cywasgu ffurfiau yn nodwedd amlwg o'r iaith lafar yn gyffredinol ac o bob tafodiaith. Ond mae lle i gredu fod y cywasgu hwn wedi mynd i eithafion yn nhafodiaith y Rhos. Dyma rai enghrefftau:

Ffurfiau 'BOD'

y mae yna < [mannɛ] + ffurfiau rhediadol y ferf

yr oedd yna < [onnɛ]

mi fydd yna < [vynnɛ]

Ffurfiau 'GAN'

y mae gen i < [magai] + ffurfiau rhediadol yr arddodiaid

yr oedd gen i < [ogai]

mi fydd gen i < [vygai]

Brawddegau

[magai ða:y iffɛn]

[magənnən nu ga:r ne`uið ɛttə]

Ffurfiâu negyddol

does gen i ddim < [sgaim]

[sgaim a:m ohono vo:] - *'I don't trust him'*

Ffurfiâu 'GAN' eto

mae'n well gen i < [wəxgai nɛ' nɛ] - *I prefer that.*

[pry:n wəxgəti?] - *Which do you prefer?*

waeth gen i < [wəøgai bɛ' vo] - *I don't care!*

Enghreifftiau eraill

Mae'n rhaid i mi > [haimi] [haimi weld o] - *I must see him.*

Dwed wrtho fo > [dúæou] - *tell him.*

Geiriau da a safonol

[bradgəvarvod] > Wedi magu sawl ystyr erbyn hyn.

- 1) Salwch bach tymhorol - *out of sorts.*
- 2) Salwch angeuol (y gwrthwyneb)
- 3) 'miscarriage'

[kle:n]

- 1) [dy:n kle:n] - *a kind man.*
- 2) [ðim ən gle:n] - *not well.*

[ba' uɛð]

- 1) [mau'n va' uɛð] - *he's ill.*
- 2) [trik ba' uɛð] - *a dirty trick.*

Brawddeg

[mau di xwa're trik ba' uɛð arnai] - *he's played a dirty trick on me.*

[ɔsmant] [manne ɔsmant da: am va' lɛ le' ni] - *there are good prospects for apples this year.*

[ɔʃʃɔ] [dium ən ɔʃʃɔ du' ad] - *he gives no sign of coming.*

[gusno] [va' le di gusno] h.y. eu croen wedi sychu/crebachu

[vlaseni] [vlaseni ðim] - *I wouldn't dare.* (o'r hen air Cymraeg 'llafasu' mae'n debyg)

[ma' gy' fɛxɛ] [dui'n ma' gy' fɛxɛ ɛrs ɔrjɛ] - *I've been on pins for hours.*

[sy: r] - vinegar. (Defnyddio ansoddiar fel enw.)

[paʃja'r sy: r imi] - *pass me the vinegar.*

[trɛvn] - *mess.* (h.y. y gwrthwyneb i'r ystyr arferol)

[ðenti drɛvn] - *what a mess.*

[dæxxi di gneyd trɛvn əvnaduy] – *you've made an awful mess.*

[dry: x] – [mau'n d̪ry: x iffɛn] – *he's/it's a mess.*

[nɛ' nɛ ɛ' nɛ] – *that over there.* (cp [naku akku] a [uŋko mənko])

[hu: s] – a hiding. (cp Rhigwm y Ddafad Gorniog – 'Fe hysiodd arni gi.')

[gei di hu: s meun minnɪd] – *you'll have a good hiding in a minute.*

[divje] – *Thursday.*

[diu 'm ən du: ad tan divje ru: an] – *he's not coming till Thursday now.*

[kais] – sawl ystyr.

- 1) [dɛ nɛ gais] – *that was a close call.*
- 2) [kais main] – *a narrow escape.*
- 3) [sgənnou'm kais] – *he hasn't got a clue.*

Mynegi Ansawdd Gwael

[fardjɛ] [ɛ'dɛ] [kri: ɛ] [rhidans] – *hopeless.*

[gre: sd] [mannu'n gre: sd] – *they're a disgrace.*

[kək] [fɛ: kək] – *a poor place.*

[kɔp] [dium fa' uɛr o gɔp] – *he's not much good.*

[dɛ' ɔɛ] – dau ystyr.

- 1) *right hand side* [ar ɔxxɔr dɛ' ɔɛ]
- 2) *handy* [mau reit dɛ' ɔɛ evɔ'i d̪ullo] – *he's quite handy with his hands.*

[ar ge: t] [mau ar ge: t dru'r amsɛr] – *he's on the go all the time.*

[norrɪn] [norrɪn o: yr] – *cheeky rascal.*

[pɔŋʃo] [peidia pɔŋʃo ɛ' vou] – *don't bother with him/her.*

[prɔppɔr] [genɛθ/geθ brɔppɔr] – *a pretty girl.*

[klɔŋk] [aktjo klɔŋk] – *being a nuisance.*

[manne lɔt o glɔŋk ɛ' vou] – *there's a lot of fuss with it.*

[mo: r hadden] [di pau mo: r hadden] – *she's ever so small.*

[mɔ: n] [ən i vɔ: n] neu [wedi mo' ni] – *pouted.*

[xwa' rɛ] [mau'n xwa' rɛ] – *he's out of work.*

Yn ystod y dirwasgiad, dim ond am yn ail ddydd Llun y byddai'r colliers yn gweithio. Felly, roedd yna :

[dy: d̪ fy: n gwaio] a [dy: d̪ fy: n xwa' rɛ] Hynny yw, dim gwaith.

Gellid clywed ymadrodd tebyg i hyn:-

[mau adrɛ'n xw'arɛ ɛvo'i goes] – he's home with a bad leg.

Ebychiadau

[y'fɛn] [y'fɛn da:n] [be y'fɛn di nɛ'nɛ] – *what on earth is that.*

[jasgɛrn] [gəθɛris i hy:n]

[kəθgam] [be: gəθgam di hwn?] – *what on earth is this?*

[avluyð] [be: avluyð sy'n digwid?] – *what on earth is happening?*

Cymariaethau

I fynegi cyflymder: [mind vɛl kəθ] [mind vɛl blɛ'dɛn] [mind vɛl randrɔs]

[ən dɛ'nɛ vɛl pniugin] – penwaig – *as thin as a herring.*

[ən dɛ'nɛ vɛl gja:r]

[sy:x vɛl kɛlfɛn] – cp celffeinio – *to dry up* (Spurrel)

[ən dre'ui vɛl bɪrgɪn] – stinking like a carcass.

[ke:g vɛl fal] – *big mouth.* (fal = lle i daflu rwbel yn y pwll glo)

Geiriau Saesneg

Fel pentref sydd wedi ei leoli ar y ffin, mae dylanwad y Saesneg yn drwm ar y dafodiaith:

[gu'a:n] – *go on/off you go – llu* [gu'a:nux omma] – *bugger off!*

[fɔ:r dɛrpeɪg] – *turnpike road.*

[fɛtlo] – *to repair* (cp 'in fine fettle'.)

[ɛksdra] [ðium ən teimlo'n ɛksdra] – *he's not feeling very well.*

[tɛrn] [tɛrn o waiə] – *a shift.*

[ko'fi tɛrn] – *to miss a shift.*

[nak] [manne nak i neydo] – *there's a way of doing it.*

[dɛnti nakki] – *how handy.*

[gweitʃad] – *to wait.* [gweitʃia am vɪnɪd]

[slo'vi] – *to slow down.*

[mənʃɔ] [onni'n mənʃɔ iʃʃo deyəθ] – *I was itching to tell him.*

[fe'rɪnz] – *fairings.* Golygu *sweets* erbyn hyn.

Termau Pwll Glo

[sgri:n] – lle y gwahanid y glo

[swiljo] – [pry:d dəx xi'n swiljo] < [noswylio] < *'when do you finish work?'*

[aŋgar] – [aŋgar afjax] < awyr afiach

[tɪn] – tɪn baxdan < tin bwyd

[ba:u sa'vin] < y gweddillion sydd ar ôl wedi cael y glo. Dyma'r baw sy'n ffurfio'r bonc.

[ba:u ar laur] < term i ddisgrifio cwmp yn y pwll glo

[slək] ll. [slɛks] < *'slack, dirt'*

[dɔ'ra xəddig o slək ε'vou i savjo'r glo] < *'put some slack with it to save the coal'*.

[slɛks meirw] < *'cinders'*

[fi nin kəts] – *'tally string'*

[fi nin py:g] – *'string dipped in pitch'*

[fi nin pi:ʒe] – *'pick's string'*

[hɛtri] – *'collar'* - Darn o bren a roddir ar ben y fforch i'w ddal yn dynn yn erbyn y to [ɔp tʃɔk]

[malk] – *'a fault'*

[malk o gɔdjad] – *'a fault raising the coal seam'*

[malk o ðisgənjad] – *'a fault causing the coal seam to dip'*

[putʃur] – dyn sy'n dilyn y ceffyl wrth nôl y dramiau.

Atodiad

Llafariaid y Dafodiaith [Ffonemau Llafarog]

i	[vi:] [si:] [maʃi:n] [kri:bin]
ɪ	[gwɪn] [fɪn] [klɔŋkɪn] [amkannɪs] Saes 'daft'
e	[avle:r] [tipje] [beiθio]
ɛ	[drɛŋ] [dɛœ]
a	[flam] [flamjɔ]; a:[sa:l] [sa:x]; a' [ka' lɛd] [ta' ru]
o:	[so:n] [fo:n]; o' [to' ri] [go' lug]
ɔ	[brɔn] [fɔn][kɔdlɔ] [klɔŋkjɔ]
u:	[ku:x] [hu:x]; u' [tu' ru] [ku' ru]
y:	[kry:] [sy:r]; y' [py ro] [sy' o]
ə	[kəts] [kəndjar]

Manylu

Arwyddocâd hyd llafariaid.

De [tɔrri] – to cut; [to' ri] – *Conservative*

Gogledd [to' ri] - to cut; [to' ri] – *Conservative*

Rhaid dibynnu ar y cyd-destun i egluro'r ystyr!

Cytseiniaid y Dafodiaith [Ffonemau Cytseinol]

p	k	ŋ	v	tʃ	h	f
b	g	θ	s	dʒ	j	
t	m	ð	z	r	w	
d	n	f	ʃ	ɹh	z	

Noder

- Fel arfer mae cytsain fer (sengl) yn dilyn llafariad hir neu ganolig < [mo:ni] [fe' rinz].
- Mae cytsain ddwbl yn dilyn llafariad fer < [drəxxɪd] [norrɪn].

